Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| TEITL | **Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundeb ar Gaffael y Llywodraeth) (Diwygio) 2021**<br>**Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) 2021** |
| DYDDIAD | **25 Mai 2021** |
| GAN | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundeb ar Gaffael y Llywodraeth) (Diwygio) 2021**

**Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) 2021**

**Trosolwg Polisi o'r OSau**:

Mae angen diwygio deddfwriaeth gaffael (a nodir isod) er mwyn gweithredu'r canlynol yn ddomestig:

• Cytundeb ar Gaffael y Llywodraeth (o dan Reoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundeb ar Gaffael y Llywodraeth) (Diwygio) 2021); ac
• y rhwymedigaethau caffael mewn cytundebau masnach rhyngwladol (o dan Reoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) 2021

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio:**

• Caffael Cyhoeddus (Gwelliant ac ati) (Ymadael â'r UE) Rheoliadau 2020
• Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015
• Rheoliadau Contractau Consesiynau 2016
• Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016
• Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (Yr Alban) 2015
• Rheoliadau Contractau Consesiynau (Yr Alban) 2016
• Rheoliadau Contractau Cyfleustodau (Yr Alban) 2016

**Diben y gwelliannau**

Diben y diwygiadau yw gwneud diwygiadau technegol i ddeddfwriaeth gaffael bresennol er mwyn sicrhau bod rhwymedigaethau caffael rhyngwladol yn cael eu gweithredu'n llawn ledled y DU.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob gwelliant, ar gael yma: Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundeb ar Gaffael y Llywodraeth) (Diwygio) 2021

**Mae'r ail OS wedi'i osod ar ffurf drafft ac mae ar gael yma: Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) 2021**

**Unrhyw effaith y gallai'r OS ei gael ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Nid yw'r OSau yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Unrhyw effaith y gallai'r OS ei gael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd**

Nid yw'r OSau yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Pam y rhoddwyd caniatâd**

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygu a chymhlethdod diangen.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ei rhan yn yr achos hwn.